Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Prosiect Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru
Yn atebol i:	Pennaeth Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru
Cyflog:	Graddfa C CGGC: £28,224 yn cynyddu i £29,912 y flwyddyn ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus
Lleoliad:	Unrhyw leoliad/Gweithio o bell
Gwyliau Blynyddol:	25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â gwyliau banc a phum diwrnod disgresiwn
Teithio:	Ffafrir trafnidiaeth gyhoeddus; pan nad yw hyn yn gyfleus gall staff ddefnyddio'u cerbydau eu hunain neu'r system rhentu car. Telir cyfradd safonol y filltir yn unol â'r cyfraddau a argymhellir gan Gyllid y Wlad
Oriau:	35 awr yr wythnos. Mae cynllun amser hyblyg ar waith a chaniateir amser i ffwrdd am unrhyw waith sydd angen ei wneud y tu allan i oriau gwaith arferol
Pensiwn:	Bydd cyfraniad o 9% o gyflog blynyddol y swydd yn cael ei dalu i mewn i gynllun pensiwn cymeradwy CGGC.
Sgiliau iaith:	Byddai sgiliau Cymraeg yn gaffaeliad i'r swydd.

NOD Y SWYDD

Gweithio fel rhan o dîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn cynorthwyo â'r gwaith o gyflenwi pob agwedd ar weithgarwch, gan gynnwys y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol (SBGF), i ddarparu cymorth ariannol arloesol ar gyfer busnesau cymdeithasol yng Nghymru. Byddwch yn arwain y gwaith o sicrhau bod buddsoddiadau cymeradwy yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus drwy sicrhau bod yr holl waith papur a gwiriadau tynnu i lawr cyn-ariannol wedi'u cwblhau Yn ogystal, byddwch chi'n aelod hanfodol o'r tîm sy'n cynorthwyo ac yn ymgymryd â thasgau eraill fel asesu ceisiadau a rheoli perfformiad parhaus busnesau cymdeithasol a gynorthwyir.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu'r canlynol:

- Asesu ceisiadau am gymorth ariannol yn gywir ac mewn modd amserol

- Monitro bargeinion sydd wedi'u gwneud drwy sicrhau bod yr holl ofynion monitro a gwerthuso wedi'u bodloni

- Sicrhau bod penderfyniadau effeithiol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod gwasanaeth
  o ansawdd yn cael ei gynnig i'r holl gwsmeriaid mewnol ac allanol

- Cefnogi gwelliant ac arloesedd parhaus.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Sicrhau bod yr holl weithgarwch monitro a gwerthuso ar gyfer y cyllid a fuddsoddwyd gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys yr SBGF, yn cael ei gwblhau'n foddhaol
- Ar ôl cynnal asesiadau ysgrifenedig trwyadl o geisiadau a gyflwynwyd;
  - gwirio cymhwysedd ymgeiswyr yn erbyn gofynion yr SBGF a gofynion sefydliadol
  - gwneud arfarniad ariannol o ymgeiswyr, gan ystyried:
    - gallu eu mudiadau i gyflenwi
    - cymorth technegol ac anghenion datblygu
  - paratoi ceisiadau ar gyfer Panel yr SBGF, gan gynnwys asesiad manwl a dadansoddiad o risg
  - cyflwyno argymhellion i'r Panel o ran amcanion a meini prawf yr SBGF, gan nodi natur y buddsoddiad a pha fath o fuddsoddiad yw ef, a chan gynnwys y telerau ac amodau
- Defnyddio rhwydweithiau cymorth dynodedig i gynorthwyo CGGC i gynnal asesiadau a dadansoddiadau o risg yn ôl y canllawiau
- Defnyddio rhwydweithiau cymorth dynodedig i gynorthwyo'r mudiadau sy'n ymgeisio i baratoi gwybodaeth ategol briodol ar gyfer ceisiadau
- Darparu cyngor a chymorth technegol ar faterion SBGF yn fewnol ar gyfer staff CGGC ac ar gyfer Panel yr SBGF

- Nodi busnesau cymdeithasol sydd â'r potensial i dyfu o fewn yr ardaloedd dynodedig
- Cynnig cyngor ac arweiniad i fudiadau sy'n dymuno gwneud cais am gymorth ariannol gan yr SBGF drwy ddosbarthu gwybodaeth, ymweliadau, cymorthfeydd ac ati
- Hyrwyddo'r SBGF drwy gyflwyniadau a digwyddiadau allanol gyda chysylltiadau rhwydwaith perthnasol
- Gweithio gyda phartner-fudiadau ac eraill i sicrhau bod yr SBGF yn cael ei hyrwyddo a'i marchnata'n eang drwy'r holl rwydweithiau sydd ar gael
- Arwain y gwaith o ddarparu'r SBGF i ymgeiswyr llwyddiannus a rheoli portffolio dynodedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n barhaus
- Cynorthwyo â'r gwaith o gasglu, dadansoddi a dosbarthu'r effeithiau a'r canlyniadau a grëir gan yr SBGF ar gyfer Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a rhanddeiliaid allanol
- Cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yr SBGF ar gyfer gwaith craffu mewnol ac allanol
- Cynorthwyo staff eraill CGGC gyda llunwyr polisi a chwaraewyr strategol eraill o ran goblygiadau'r SBGF i fentrau cyllido a chymorth ehangach sydd wedi'u hanelu at y sector busnes cymdeithasol
- Cynorthwyo â'r gwaith o ddylunio, gweithredu a chyflenwi'r genhedlaeth nesaf o gynnyrch cymorth ad-daladwy

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosibl y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau ychwanegol o bryd i'w gilydd, neu fel y bo angen, yn sgil anghenion datblygiadol y gwasanaeth neu fudiad.

Gan fod CGGC yn cael ei gyllido'n rhannol gan Gyllid Ewropeaidd (drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)) gallai rhai o'ch dyletswyddau ofyn i chi dreulio amser yn gweithio ar draws y prosiectau hyn. Y cyfeirnodau WEFO ar gyfer y prosiectau hyn yw 80845, 80846, 80847 ac 80848.

MANYLEB UNIGOLYN

Mae'r canlynol yn *sgiliau hanfodol* (ni fydd ymgeiswyr na fydd yn gallu dangos y sgiliau hyn yn cael eu rhoi ar y rhestr fer)

1. Sgiliau monitro a gwerthuso cryf ar gyfer gweithgarwch grant a/neu fenthyciad, a ddangosir gan lwyddiant neu brofiad blaenorol.
2. Sgiliau asesu risg ariannol a dadansoddi busnes da, a ddangosir gan lwyddiant blaenorol, profiad, cymwysterau proffesiynol ac ati
3. Gallu gweithio'n effeithiol ar draws bob lefel o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector
4. Awydd cryf i gynorthwyo busnesau cymdeithasol i oresgyn eu rhwystrau i dyfu

5. Dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r sector busnesau cymdeithasol
6. Llwyddiant blaenorol o allu darparu gwasanaeth cyson a thryloyw nad yw'n gwahaniaethu sy'n cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf i ymgeiswyr tra'n cadw at anghenion rheoleiddiol a chontractiol llym
7. Yr hyder i gyfathrebu canllawiau cymhleth a phenderfyniadau anodd i fudiadau'r buddiolwyr, a hynny mewn modd adeiladol ac eglur, ar lafar ac mewn geiriau
8. Sgiliau TG da
9. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys mewn cyflwyniadau, trafodaethau a chyfarfodydd â phartïon allanol yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol
10. Gallu gweithio ar liwt eich hun, gydag agwedd hyblyg tuag at addasu cynlluniau gwaith ar fyr rybudd er mwyn cyd-fynd â'r newidiadau mewn blaenoriaethau, ac ymgymryd â thasgau heriol yn ôl yr angen ar gyfer y tîm ehangach a CGGC
11. Gallu mynd ati mewn modd hyblyg ac addasadwy, ac yn barod i weithio oriau anghymdeithasol er mwyn diwallu anghenion y prosiect
12. Ymrwymiad i gyfle cyfartal

Mae'r canlynol yn s*giliau dymunol* (mae'r sgiliau hyn yn fanteisiol, a byddent yn gwella'r cais)

1. Gwybodaeth rheoli prosiect am ddefnyddio PRINCE2 neu ddull prosiect arall (byddai hyn yn ddymunol ond nid yn hanfodol)
2. Profiad o lunio grantiau neu fenthyciadau, yn enwedig wrth baratoi dogfennau cyn tynnu arian i lawr
3. Dealltwriaeth gadarn o Gyllid Ewropeaidd, yn enwedig Cronfa Gymdeithasol Ewrop a mathau eraill o gyllid, ac o'r heriau sy'n wynebu gweithrediadau a buddiolwyr sy'n gweithio o fewn y system Gyllido Ewropeaidd, a gwybodaeth gadarn am y pethau hyn
4. Byddai sgiliau yn y Gymraeg yn gaffaeliad i'r swydd; disgwylir i'r sawl a benodir ddangos ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a chydymffurfio â nhw.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund

WCVA
Active
Inclusion
Fund
CGGC
Cronfa
Cynhwysiant
Gweithredol